

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang

ADCDF

Rhifyn 12 Hydref 2009

Cynhyrwyd gan y Ganolfan Addysg Byd www.bangor.ac.uk/addysgbyd
Ar ran Fforwm ADCDF Gogledd Orllewin Cymru

Cymorth i Ysgolion: project mentora cyfoedion ADCDF

Mae lle o hyd i ysgolion ar broject mentora cyfoedion ADCDF y Ganolfan Addysg Byd. Os ydych chi am ddatblygu ADCDF yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 neu yn yr uwchradd, beth am gael cefnogaeth athro arall wrth eu gwaith? Llynedd cefnogwyd 40 ysgol a dyma sylw un athro:

“Roedd yn wych gallu rhannu fy syniadau gydag athro arall a gweld eu bod yn bosib. Rydym ni wedi darganfod ein bod yn gwneud dipyn go lew yn barod a dim ond angen llenwi'r bylchau.”

Cysylltwch â Sheila Bennell i gael manylion s.bennell@bangor.ac.uk

Cyrsiau Partneriaethau Ysgolion Byd-eang DFID - Bangor a Machynlleth

Trefnwyd diwrnod hyfforddi ar ddatblygu partneriaethau ysgolion byd-eang ar gyfer Tachwedd 5 ym Mhrifysgol Bangor – mae tri deg o athrawon wedi rhoi eu henwau. Mae'r cwrs rhyngweithiol hwn wedi ei ariannu gan yr Adran Datblygu Rhyngwladol a bydd yn helpu athrawon i feddwl am y rhesymau dros fod eisiau partneriaeth a'r ffyrdd gorau i ddod o hyd i ysgol bartner. Daw ymwelydd o Zambia a Kenya i gyflwyno safbwynt partneriaid yn y de. Mae'r cwrs hwn yn llawn.

Cynhelir cwrs arall ddwyieithog yn Llanidloes ar **20 Ionawr** ar gyfer athrawon yn ne Gwynedd, Powys a Cheredigion. Cysylltwch â Sheila Bennell i gael manylion s.bennell@bangor.ac.uk

Hefyd Sesiynau blasu i athrawon ar Bartneraethau DFID Byd-Eang : Aberystwyth Wed 25th November 2009

I gael fwy o fanylion
http://www.vso.org.uk/Images/DGSP_TasterSess_final%200809pdf_tcm79-23627.pdf

I archebu lle e-bostiwch globalschool@vso.org.uk
or call **020 8780 7396**.

Cysylltiadau fideo-gynadledda gydag ysgolion yn Académie Montpellier

Ar ddiwedd tymor yr haf, crëwyd cysylltiadau rhwng Académie Montpellier (yn cyfateb i'n Hawdurdod Addysg Lleol) ac Ymgynghorydd Ieithoedd Tramor Modern y sir. Gwnaed y cysylltiad cyntaf trwy fideo-gynadledda a bu tua 15 o bobl ynglŷn â hyn (addysgwyr, ymgynghorwyr ieithoedd tramor modern, swyddogion AALI) o ardal Montpellier, Cymru, Lloegr, Canada a'r UDA!



Y nod yw creu cysylltiadau rhwng ein hysgolion, a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc i gyfathrebu â'i gilydd a chymryd rhan mewn projectau ar y cyd trwy Fideogynadledda. Dylai unrhyw ysgol sydd â

diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â : Sylvie Gartau, Ymgynghorydd Ieithoedd Tramor Modern, Cynnal sylvieG@cynnal.co.uk
<<mailto:sylvieG@cynnal.co.uk>>

Diwrnodau hyfforddi yn CAT

Mae'r Adran Addysg yn y Ganolfan Technoleg Amgen, Machynlleth, Powys, yn rhedeg nifer o ddiwrnodau hyfforddi trwy gydol yr hydref ar gyfer athrawon, prif athrawon ac addysgwyr. Caiff cyfranwyr eu hysbrydoli a'u grymuso i gynnwys ADCDF yn eu gwersi trwy wybodaeth, dealltwriaeth a gweithgareddau ac yn dysgu sut i ddatblygu cwricwla sy'n cynnwys ADCDF. Mae lleoedd ar gael ar y cyrsiau canlynol:

Dydd Llun 2 Tachwedd – ADCDF ar gyfer athrawon Gwyddoniaeth

Dydd Mawrth 3 Tachwedd- ADCDF ar gyfer athrawon Celfyddydau ac Iaith

Dydd Mercher 4 Tachwedd- ADCDF ar gyfer athrawon Dylunio a Thechnoleg

Dydd Llun 9 Tachwedd- ADCDF ar gyfer athrawon ABCh. Cost: £70 fesul cyfrannwr i

gynnwys lluniaeth, cinio a chyflwyniad i'r Ganolfan.

Archebu lle : Cysylltwch ag Anita Schwartz ar (01654) 705983, neu ar education@cat.org.uk

Beth mae mynd i'r ysgol yn ei olygu i'r Maasai? Gweithdai ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6.

Mae 75 miliwn o blant o gwmpas y byd yn mynd heb addysg. Bydd y project hwn yn edrych ar y broblem yn gyffredinol ac ar y Maasai yn arbennig gan gysylltu â holl brif themâu ADCDF. Mae'r project wedi ei ariannu gan Oxfam a'i reoli gan y Ganolfan Addysg Byd. Bydd y Gweithiwr Cefnogi Ysgolion, Angela Roberts, yn cynnig gweithdy diwrnod ar gyfer blwyddyn 5 a 6 lle bydd disgyblion yn:

Gwisgo i fyny a dawnsio fel rhyfelwyr Maasai, gwneud torch rhyfelwr, gwrando ar straeon am gwffio â llewod gwancus ac – yn bwysicaf – yn ystyried pam mae cael addysg mor bwysig i bob un person yn y byd.

YN RHAD AC AM DDIM i'r 15 ysgol gyntaf i fynegi diddordeb, Cysylltwch ag: angela@fairtrade@gmail.com

Cynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn

Mae Cynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn bron yn ddeg oed. Mae canran deilwng o ysgolion yr ardal wedi derbyn gwobrau ac mae nifer o'r meini prawf cynnar yn ail natur i ni erbyn hyn. Gyda chyhoeddiad 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' (Llywodraeth Cynulliad Cymru) ac 'Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Cyd-ddealltwriaeth i ysgolion' (APADGOS) roedd hi'n amserol i swyddogion Cyngor Sir Fôn, Cyngor Sir Gwynedd a CYNNAL i ddod at ei gilydd i adolygu'r meini prawf a'r enghreifftiau cyd-

destunol. Rydym wedi diweddarau ac aildosbarthu'r meini prawf i adlewyrchu themâu megis: newid yn yr hinsawdd, treuliant a gwastraff a'r amgylchedd naturiol. Ond wrth gwrs bydd angen meithrin sgiliau meddwl y dysgwyr cyn iddynt ystyried y 'dewisiadau' a gwneud 'penderfyniadau'!

Bwriedir defnyddio fersiwn drafft o'r cynllun eleni er mwyn derbyn adborth oddi wrth yr ysgolion sydd am gyflwyno'u portffolios eleni. Mae copïau ar gael ar wefan CYNNAL www.cynnal.org.uk > Ysgolion>ADCDF>Cynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn.

Elfed Gruffudd, Dewi Jones, Eurwyn Griffith, Bethan James

Datblygu Gardd Gymunedol

Mae Fiskars Orange Thumb yn gynllun



sy'n cynnig i grwpiau garddio cymunedol yr arian, yr offer a'r deunyddiau sydd eu hangen i lanhau a thrin manau gwyrdd a esgeuluswyd yn y gymuned. Mae'n helpu cymunedau i adfywio man gwyrdd a gollwyd neu a anghofwyd i ddathlu'r ymgyrch. Os gwyddoch am ddarn diffaith o dir sy'n llawn dail poethion, drain a mieri, ond a fyddai yn eich barn chi yn lle perffaith i'ch cymuned ei fwynhau, beth am ei enwebu fel project Fiskars Orange Thumb? Bydd panel arbenigwyr garddio Fiskars yn dewis project o blith yr enwebiadau ac yn anfon tîm o wirfoddolwyr Orange Thumb a llwyth o offer garddio gwych Fiskars i'ch helpu chi a'ch cymuned i docio, chwynnu a phalu eich man gwyrdd fel y gall y gymuned gyfan ei ddefnyddio a'i fwynhau. Cofrestrwch eich project ar <http://www.orangethumb.co.uk/>

NEWYDDION YSGOLION

Ysgol Friars: Fideo gynhadledd amlieithog i ddathlu diwrnod ieithoedd Ewrop!

Ddydd Gwener 25 Medi, cymerodd disgyblion Blwyddyn 12 ac 13 yn Ysgol Friars ran mewn cynhadledd fideo gyda nifer o ysgolion yn Ffrainc. Y nod oedd dathlu diwrnod ieithoedd Ewrop (26 Medi) trwy ddefnyddio cynifer o ieithoedd â phosib. Roedd yn rhaid i'r disgyblion ateb cwis cyffredin ar Ewrop. Darllenwyd y cwestiynau gan y disgyblion yn eu hiaith gyntaf neu yn yr iaith y maent yn ei hastudio. Y prif amcan oedd i ddisgyblion glywed sawl iaith wahanol a

chyfathrebu â'i gilydd. Yn ystod ein sesiynau, clywsom Eidaleg, Catalaneg, Ffrangeg, Saesneg a gallai disgyblion Ysgol Friars ychwanegu Cymraeg at y rhestr ieithoedd. Nid oedd ein cyfeillion yn Ffrainc erioed wedi clywed Cymraeg o'r blaen. Eu barn nhw oedd "bod yr iaith yn swinio'n hyfryd iawn!"

Roedd y drefn yn syml iawn gan fod y trefnydd (Yvan Baptiste, Perpignan, Ffrainc) wedi rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i ni a'i gwneud yn



hawdd iawn i ni gysylltu. Bu Roger Bloaxam, yn Llundain, yn gymorth mawr gyda'r ochr dechnegol a bu ein rheolwr TGCh (Gareth Evans) yn cydweithio'n agos â ni hefyd, gan wneud y broses yn bosib ac yn ddi-boen i ni. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn. Roedd y disgyblion wrth eu bodd gyda'r fformat a'r syniad o gyfathrebu'n "fyw" gyda phobl "go iawn" yn Ffrainc!

Diolch i'r profiad cyntaf hwn, mae ein hysgol yn gobeithio creu cyswllt parhaol gydag ysgol yn Dijon, Ffrainc, fel y gall ein disgyblion weithio ar broiect cyffredin a chyfnwid safbwyntiau a syniadau trwy gyfrwng fideogynhadledd. Maent yn edrych ymlaen yn arw! Vive les langues et la technologie!! *Stephanie Ellis- Williams, Pennaeth Ieithoedd Modern Tramor, Ysgol Friars.*

Rhai syniadau gan ysgolion

Rydym wedi clywed cymaint o syniadau da gan ysgolion fel ein bod wedi penderfynu rhestru rhai yma. Fe wyddom fod llawer llawer mwy felly os gwelwch yn dda, anfonwch eich storïau am lwyddiant ar gyfer y cylchlythyr nesaf!

Ysgol Sant Elfod: marchnad ffermwyr ar y safle i gysylltu â gwaith yng ngardd yr ysgol

Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol y Gorlan: adborth rheolaidd gan ddisgyblion am eitemau cyfredol mewn papurau newydd, cysylltiedig â'r bwrdd gwyn, e.e. y jyngl yn Calais yn gysylltiedig â dysgu am Afghanistan.

Ysgol Maesincla babanod: babanod yn dysgu am newid yn yr hinsawdd trwy fynd â thegan sef arth bolar adref a gwneud un peth i leihau newid yn yr hinsawdd, megis diffodd golau.

Ysgol Machreth: Man cychwyn ein prosiect oedd y stori '*Salamatu and Kandori go missing*'. Stori am blentyn oedd yn byw mewn pentref yn Ghana oedd hon, a'i gafr oedd Kandoni. Wrth ddilyn hynt a helynt yr arf, dysgwyd llawer iawn am fywyd pob dydd yn Ghana, eu gwaith, a'u crefydd. Dysgwyd am bwysigrwydd gafr, am gynnyrch y wlad, y ffrwythau a'r llysiâu, a'r siocled, a hefyd am faterion masnach deg yn Ghana

Ysgol y Traeth: dod o hyd i adnoddau ar gyfer tyrbin gwynt – mae llawer o ysgolion eraill yn edrych ar hyn hefyd.

Ysgol Llandrygarn ac Ysgol Llanllechid - Ysgolion Masnach Deg cyntaf yn Ynys Môn a Gwynedd.

ADNODDAU

Cymorth Cristnogol

Mae ein Cynulliad y mis ar gyfer mis Medi yn mynd â disgyblion i Tamil Nadu yn India. Yma mae sefydliad partner Cymorth Cristnogol wedi gweithio gyda phobl ifanc i sefydlu clybiau-Eco yn eu hysgolion i fynd i'r afael â bygythiad newid yn yr hinsawdd. Cymerwch gip ar eu gweithgareddau a beth hoffen nhw i ddisgyblion yng Nghymru ei wneud hefyd!

http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResources/primary/primaryassembly_sept09.aspx

<http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResources/secondary/secondaryassembly_sept09.aspx>

Ewch hefyd i Global Explorers/Antur Fyd-eang i gael deunyddiau dosbarth i gyd-fynd â'r gwasanaeth cynradd.

<http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResources/primary/global-explorers.aspx>

Cylchlythyr Global Dimension

"The Globe", ebost am ddim bob tymor i roi'r newyddion diweddaraf i chi am nodweddion ac adnoddau newydd ar Wefan y Global Dimension <http://www.globaldimension.org.uk/Newsletter/?id=522>

Gwefan The Global Rich List

<http://www.globalrichlist.com/>

Newid yn yr Hinsawdd

Y mae adnodd newydd ar <http://www.newidhinsawddcymru.org.uk> ar gyfer ein disgyblion ieuengaf, animeiddiad gyda dau eliffant Elgan ac Eva a'u hôl troed anferthol. http://www.newidhinsawddcymru.org.uk/public/primary_school/key_stage_1/ Cliciwch ar eu llun ar y wall!